

BEIRNIADAETH Y FEDAL DDRAMA

Chwech drama ddaeth i law a hoffem ddiolch i bob cystadleydd am eu hymdrechion a'u hymroddiad. Difyr oedd gweld pa themâu sy'n sparduno a thanio dychymyg bobl ifanc heddiw, a braf oedd gweld y dramodwyr yn ysgrifennu yn gyfoes a pherthnasol. Roedd cyfeillgarwch yn elfen amlwg iawn drwy'r gystadleuaeth a'r berthynas fregus a chymhleth rhwng ffrindiau yn mynd â bryd nifer o'r dramodwyr.

Mewn manau roedd yr ysgrifennu yn sensitif, tyner a theimladwy. Calonogol iawn oedd darllen ambell berl o linell a wnaeth wir argraff arnom. Er hyn, mae tuedd i fod yn or-eiriol ym mhob un o'r dramâu ac mi fyddai'r chwech yn elwa'n fawr o docio a chwynu. Hoffem hefyd i rai o'r dramodwyr dyrchu'n ddyfnach er mwyn creu cymeriadau cymhleth a chyfoethog.

Dwy ddrama yn unig oedd yn cynnig ychydig o ffraethineb a chynhesrwydd yng nghanol y duwch. Er fod y pwnc yn ddyrus, cofier bod lle am ambell fflach o hiwmor i godi gwên a rhoi rhyddhad.

Mae'r drama yn disgyn i ddau ddosbarth amlwg gyda HEDYN, MAGI, FFWL EBRILL a MERCHER yn y dosbarth cyntaf ac Y MAB AFRADLON a RHYWUN yn yr ail ddosbarth.

Fe hawliodd HEDYN ein sylw o'r dudalen gyntaf gyda'r ddrama *Anghymesur*. Mae'r berythnas rhwng dwy ffrind, Gwawr a Heledd, yn gymhleth a chyfoethog, gyda'r plot yn datblygu'n gelfydd wrth inni dyrchu i'w gorffennol. Mae'r ddrama yn llawn dirgelwch ac amwysder sy'n arwain ar ddiweddglo cryf. Mae tuedd i'r ddeialog fod yn glogyrnaidd ar adegau ac anogwn y dramodydd i chwilio am rhythmau mwy naturiol wrth ddeialogi. Mae HEDYN hefyd yn fardd ond gofaler nad yw'r barddoniaeth yn tarfu ar lif a thempo'r ddrama. Mae'r glir fod HEDYN yn deall hanfodion drama a hoffem ei l/llongyfarch ar ddrama afaelgar a safonol.

Y berthynas rhwng ffrindiau sy'n hawlio sylw MAGI hefyd. Sefydli'r fod trychineb wedi digwydd yng ngorffennol tywyll pentref Beddhelen, ond beth? Mae *Purdan* yn ddrama sydd hefyd wedi ei saernio'n gelfydd a braf oedd gweld hiwmor a ffraethineb bachog rhwng y cymeriadau. Mae'r plot yn troi yn ei unfan ar adegau ac mae lle i chwynnu'r areithiau hirion ond dyma ddrama llawn addewid sy'n codi cwestiynau am fywyd mewn pentref bychan gwledig.

Anobaith y digartref yw thema *Boddi* gan FFWL EBRILL. Dyma ddrama amrwd a phwerus, a drama mwyaf gwreiddiol y gystadleuaeth. Llwydda i bigo cydwybod a chodi cwestiynau treiddgar. Mae'r ddialog yn llafar dros ben gydag ambell linell arbennig a chofiadwy. Ond er yr addewid, drafft cynnar iawn sydd yma ac nid yw'r ddrama yn barod i'w chyflwyno i gystadleuaeth. Mae angen datblygu'r cymeriadau ym mhellach a chywiro'r gwallau teipio sydd yn frith drwy'r ddrama. Yn sicr, byddem yn annog y dramodydd i ddal ati gan bod llais unigryw a gwreiddiol yma.

Braf oedd gweld fffraethineb a thynnu coes yn nrama MERCHER, *Hippocampus*. Criw ifanc yn rhannu ty sydd yma ac mae'r naws yn newid pan ddarganfyddir corff yn yr ystafell molchi. Mae'r sefyllfa yn llawn potensial ond doedd ymateb y cymeriadau

ddim yn taro deuddeg. Mae angen edrych ar odro'r ddrama a'r emosiwn ym mhellach.

Hanner brodyr yw Ben a Peredur yn *Lladd y Llo Pasgedig* gan Y MAB AFRADLON ac mae gan y ddau berthynas bregus gyda'u tad, Cynan. Eto, mae'r sefyllfa yn llawn potensial ond yn anffodus roedd y ddialog yn ddi-fflach gyda'r llinellau byrion fel pêl ping-pong yn mynd yn ôl a blaen o un cymeriad i'r llall. Doedd dim digon o uchafbwyntiau storïol i gynnal diddordeb ac anogwn y dramodydd i edrych ar ddatblygu hon ym mhellach.

Byddem yn annog RHYWUN i ddarllen dramâu er mwyn ymgyfarwyddo gyda'r ffordd y gosodir sgript lwyfan. Anodd oedd gwahaniaethu rhwng y ddialog a'r cyfarwyddiadau llwyfan mewn manau. Os am ymgeisio i ddefnyddio gwahanol dafodieithioedd yna mae angen bod yn gywir ac yn gyson drwy'r sgript.